Kaum mehr eine Ermutigung brauchen allerdings jene Stockmacher, die vor allem in den ländlichen Gegenden Großbritanniens seit etwa 20 Jahren immer mehr Anhänger finden. Waren es vor einem halben Jahrhundert vor allem und fast ausschließlich Schäfer, die sich die von ihnen benötigten Krummstäbe schnitzten, so findet jetzt eine immer größere Zahl von Enthusiasten, die aus den heimischen Hölzern - vor allem Haselnuß, Holunder, Esche und Schwarzdorn - Stöcke herstellen, sie beschnitzen und bemalen oder mit kunstvollen Griffen aus Hirsch-, Schaf- oder Rinderhorn versehen **(Abb. 17)**. Wie dieses Hobby zunimmt, zeigen nicht allein zahlreiche Veröffentlichungen zur Stockherstellung, die im Vereinigten Königreich allein im letzten Jahrzehnt publiziert worden sind, sondern auch die Gründung der Britischen Stockmacher Gilde 1984, der bereits in den ersten zwölf Monaten ihres Bestehens 500 Stockmacher beitraten. Bemerkenswert ist, daß die meisten dieser Stockmacher danach streben, Ästhetik mit Praktikabilität zu verbinden, d.h. ihre Stöcke sind von Jägern, Wanderern und Viehzüchtern durchaus zu verwenden (**Abb. 18**).



Abb. 18:
S.K.H. Charles, Fürst von Wales
(Schloß Balmoral / Schottland)

Vielleicht kann von hier ja eine Inspiration auch für zukünftige kontinentale Stockmacher ausgehen, denn sicher ist das Medium des Stocks auch heute noch nicht "ausgereizt", wie etwa die Arbeiten von James Follows-Smith zeigen, einem früheren kenianischen Farmer, der seit einigen Jahren thematische Stöcke gestaltet, die sich nicht nur durch ihre Farbigkeit und die Kostbarkeit ihrer Materialien auszeichnen, weshalb sie ein britisches Fernsehteam in seinem Bericht als "Fabergé auf Holz" charakterisierte, sondern der auf ihnen ganze Geschichten erzählt. Sie alle halten geographische und historische Besonderheiten fest, so wie es nicht nur jener älteste erhaltene Spazierstock des 15. Jahrhunderts tat, sondern schon die ersten Exemplare von Stöcken aus frühgeschichtlicher Zeit.



## Crynodeb

Gall ffyn fod yn emblemau a symbolau o bwer, ond hefyd yr oeddent yn eitemau at ddefnydd personol, yn gymorth cerdded yn ogystal ag arwydd allanol o fri cymdeithasol a gwychder. Mae'r defnydd o ffyn yn dyddio o amser pell yn ôl, hyd yn oed o amserau cynhanesoddol: Pan safodd dyn cyntefig i fyny'n syth am y tro cyntaf, gwnaeth hynny gyda chymorth pren trwm solet, a oedd yn fwy fel clwb, a defnyddiai ef fel cymorth i gerdded, gan yna ddatblygu yn bastwn ar gyfer ymladd ac yna yn waywffon gyda blaen fflint ar gyfer hela. Dyma ei arf cyntaf i gadw anifeiliaid gwyllt i ffwrdd ac amddiffyn ei hun a'i lwyth - gwelir olion o hyn yn y ddihareb 'Da'r maen gyda'r efengyl'.
Gan mai'r dyn cryfaf mae'n siwr, gyda'r pren praffaf a oedd yn arweinydd ei fand bychan neu ei lwyth, nid yw'n anodd dychmygu wedi hynny wrth i ddyn ddod yn fwy gwareiddiedig, daeth y pren aml-bwrpas hwn yn nwylo'r arweinydd yn arwydd o'i swydd ac yn emblem penodol o bwer ac awdurdod, fel yr hyn a welwn yn nwylo Moses wrth iddo arwain ei bobl gyda ffon. Gwelir heddiw arweinwyr crefyddol a seciwlar mewn cymdeithas, boed esgobion neu frenhinoedd, yn cario baglau a theyrnwialenni.
Daeth y ffon yn rhan mwy a mwy hanfodol o wisg gwr bonheddig, a bu diwydiant a chrefftau yn ymroi i'w wneud yn rywbeth gwerthfawr ac y byddai'n cael ei chwennych. Roedd hyd yn oed y ffyn cynharaf yn cael eu haddurno'n gywrain, yn aml gydag emblemau a oedd yn perthyn i'r llwyth a 'i dduwiau arbennig. Roedd amfforâu Groegaidd yn dynodi gwahanol ystyron a phob math o ddefnydd o ffyn. Mewn hieroglyffau Eifftaidd yr ydym bob amser yn adnabod y brenin gyda'i arwydd o'i urddas. Daethpwyd o hyd i ffyn a oedd wedi eu cerfio'n gywrain mewn hen feddrodau a agorwyd mewn amrywiol wledydd, e.e pan gloddiwyd bedd Tutankhamen, darganfuwyd nid llai na 132 o ffyn. Roedd y ffyn cymdeithasol hyn yn cynrychioli trefn a llywodraeth fel y gwelir heddiw gyda phastynau heddlu neu faton milwrol cadlywyddion Almaenig yn yr Ail Ryfel Byd.
Ond cyn belled ag y gwyddom, nid hyd y 14eg ganrif y daeth ffyn uwchraddol i gael eu defnyddio yng Ngorllewin Ewrop, er i ffyn gael eu defnyddio drwy'r canrifoedd gan bererinion a theithwyr eraill, gyda mannau cuddio defnyddiol weithiau ar gyfer arian, meini gwerthfawr ac arfau cudd. Dechreuodd y newid ar ddechrau'r 1300au gydag nifer fechan o ddarnau o ansawdd uchel yn nwylo'r 'elite' yn unig. Gwnaethpwyd y ffon gerdded gynharaf sydd wedi goroesi ac sydd yn hysbys i ni yn Hwngari oddeutu 1450 ac mae wedi ei cherfio â digwyddiadau hanesyddol y dydd.
Dengys lluniau o bersonau amlwg ar ddiwedd yr Oesoedd Canol, cyfnod y Dadeni a drwy'r 16eg ganrif pa mor gywrain oedd y ffyn cerdded a ddefnyddiwyd. Yr oeddynt erbyn hyn yn dod yn rhan mor hanfodol o wisg fel bod gwahanol ffyn yn cael eu defnyddio gan uchelwyr ar gyfer gwahanol wisgoedd, ac yn fynych yn cael eu haddurno â dolenni cain; cesglid hwy hyd yn oed am eu harddwch a'u gwerth Gwnaeth y Brenin Harri VIII (1509 - 1649), lawer i hybu'r ffasiwn yn Lloegr, ac yntau'n meddu ar y fath bersonoliaeth. Roedd ganddo rai ffyn hardd ei hunan a brysiodd yr uchelwyr a'r gwyr llys a'i amgylchynai i'w efelychu a chawsant ffyn tebyg ond yn ddiplomataidd llai cywrain wedi eu gwneud iddynt eu hunain. Erbyn amser Siarl I (1625- 1649), roedd ffyn hir, fel arfer yn cael eu haddurno â dolenni rhuban, yn angenrheidiol ar gyfer dynion ffasiynol. Mae llun enwog o'r Brenin yn ei ddangos yn edrych yn frenhinol iawn gyda'i law dde yn gorffwys ar ffon gerdded. Roedd Lewis XIV o Ffrainc yn 'gwisgo' ffyn uchel ac roedd y llys yn ei ddilyn, er nad oeddent yn cael ymddangos o